

Pennod 1
Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar

Siân Wyn Siencyn

Beth yw Astudiaethau Plentyndod Cynnar?

Mae Astudiaethau Plentyndod Cynnar yn faes cymharol newydd. Sefydlwyd yr adrannau prifysgol gyntaf yn nechrau'r 1990au gyda'r bwriad, yn benodol, o gydlynu meysydd academiaidd oedd yn ymwneud â datblygiad plant, addysg, iechyd, lles a gofal. Mae'r astudiaeth o blentyndod yn cynnwys ac yn uno nifer o ddisgyblaethau mwy traddodiadol: addysg, seicoleg, iechyd, meddygaeth a gwyddoniaeth, gwleidyddiaeth, polisi cyhoeddus, y gyfraith, athroniaeth a moeseg, anthropoleg, a hanes. Mae'n faes sydd yn ymdrin â themâu mawr a chysyniadau astrus: cyfiawnder, cyfrifoldeb, grym, cydraddoldeb, perthynas yr unigolyn â'r wladwriaeth.

Mae'r gyfrol hon yn cynnig cyflwyniad i rai o'r meysydd hyn. Ceir, er enghraifft, ym mhennod 2, olwg ar hanes plentyndod gan edrych ar yr holl gysyniad o blentyndod. Mae dylanwad gwaith a damcaniaethau'r hanesydd Philippe Ariès o Ffrainc yn drwm ar y maes yma er bod cryn feirniadaeth wedi bod o'i honiad mai creadigaeth gymharol ddiweddar yw plentyndod ac nad oedd y fath gyflwr â phlentyndod yn yr Oesoedd Canol. Nid oedd modd, meddai, amgyffred y cysyniad o gyfnod rhwng babandod ac oedolaeth tan yn gymharol ddiweddar.

Mae tensiwn parhaol rhwng y canfyddiad o blant bach ar y naill law fel bodau bach diniwed, angylaidd y mae angen i oedolion eu hymgeleddu a gofalu amdany'n nhw, ac ar y llaw arall fel diawlaid bach anystywallt a drwg y mae angen eu gwareiddio. Amlygwyd y ddeuliaeth hon yn achos llofruddiaeth y plentyn bach James Bulger. Ar 12 Chwefror 1993, dygwyd plentyn bach dwyflwydd oed o ganolfan siopa yn Lerpwl. Ddeuddydd yn ddiweddarach cafwyd hyd i'w gorff, gydag anafiadau dychrynlyd, ar reilffordd. Cyhuddwyd dau fachgen deng mlwydd oed o'r llofruddiaeth, sef Jon Venables a Robert Thompson.

Gwelwyd yn ystod cyfnod yr achos llys yn erbyn Venables a Thompson gryn drafodaeth

yn y wasg ynghylch drygioni plant a honno ar brydiau'n drafodaeth egr iawn. Nid oedd y ddau fachgen yn cael eu canfod fel plant ac yn sicr nid fel plant oedd ag unrhyw anghenion a oedd yn berthnasol i'w hoed a'u cyflwr fel plant. Yn wir, cynhaliwyd eu hachos mewn llys oedolion ac nid, fel yn arferol, mewn llys plant. Ni chawson nhw, ychwaith, ddiogelwch anhysbysrwydd gan i'w henwau gael eu rhyddhau i'r wasg. Dywed yr awdur Blake Morrison a fynychodd yr achos llys ac a ysgrifennodd lyfr ar yr achos:

Roedd achos James Bulger yn eiconaidd. Ond o edrych yn ôl, mae'r wers bron y gwrthwyneb i'r hyn a oedd ar y pryd - nid bod plant wedi tyfu'n fawr ac yn beryglus, ond bod cymdeithas oedolion wedi colli golwg ar eu maint bach a'u breuder...Roedd yn rhaid lladd y plant a oedd wedi llofruddio'r plentyn, neu o leiaf eu rhoi dan glo am byth. Roedd y gair a ddefnyddiwyd i'w disgrifio yn atal pob trafodaeth. Roedden nhw'n ddrwg.

The Bulger case was iconic. But in hindsight, its lesson is almost the opposite of what it was taken to be at the time - not that children had grown big and dangerous, but that adult society had lost sight of their smallness and vulnerability. The kids who had killed the kid had to be killed, or at any rate locked up for life. The word used about them stopped all arguments. They were evil.

(Guardian, 6 Chwefror 2003)

Mae cymdeithas wedi brwydo gyda'r gwrthdaro a'r paradocs yma rhwng gweld plant fel y diniwed, y gwan, y tlws, a'r diamddiffyn ac ar yr un pryd, eu gweld fel cythreuliaid anwar, peryglus a drygionus. Agorodd achos James Bulger drafodaeth yng ngwledydd Prydain sydd yn parhau hyd heddiw ynghylch natur plentyndod a phlant, sut mae plant yn cael eu gweld gan y wasg a'r cyfryngau ac mewn hysbysebion, dylanwad teledu a ffilmiau ar ymddygiad plant ac yn y blaen. Mae yn y drafodaeth yma fath o baranoia cymdeithasol ynghylch plant a plentyndod sydd, ar brydiau, yn anodd ei ddirnad.

Flwyddyn ar ôl marwolaeth James Bulger, bu farw merch fach bum mlwydd oed o'r enw Silje yn Trondheim, tref fach yn Norwy. Roedd Silje a dau fachgen bach wedi bod yn chwarae pan aeth y chwarae o chwith a thro'i'n dreisiol. Anafwyd Silje yn y chwarae garw, tynnodd y bechgyn ei dillad, ei bwrw'n gas iawn, ac yna ei gadael i rewi i farwolaeth yn oerfel eira gaeafol Norwy. Mae'r tebygrwydd i achos James Bulger yn drawiadol. Ond mae gwahaniaeth mawr rhwng y modd yr ymdriniwyd â'r ddau achos:

Pan gyhoeddwyd y newyddion am ei llofruddiaeth, agorwyd yr ysgol leol yr oedd y bechgyn a Silje wedi ei mynychu gan y pennaeth a'r heddlu. Buon nhw'n siarad â phlant a rhieni, gan bwysleisio bod y plant yn ddiogel ac yn erfyn am dawelwch ac am ymatal rhag dial...Ddeuddydd yn ddiweddarach, aeth y llofruddion ifainc yn ôl i'r ysgol yng nghwmni seicolegwyr. Ni chafwyd protestiadau gan y rhieni ac ni symudwyd unrhyw blant o'r ysgol gan eu rhieni...Yn Norwy, lle mae oed troseddoldeb yn 15 - yn hytrach na 10 fel ym Mhrydain, roedd y bechgyn yn cael eu trin fel dioddefwyr ac nid fel llofruddion.

As soon as the news of her murder was made public, the police and the local schoolmaster opened up the school that both the boys and Silje attended and talked to both parents and children, stressing how safe the children were and appealing for calm and no vengeance.Two days later, the young killers went back to this school, accompanied by psychologists. There were no protests and no parents withdrew their own children....In Norway, where the age of criminality is 15 – as opposed to 10 in Britain, they (the boys) were treated as victims not killers.

(Kehily, 2004: 19)

Mae'r ddau achos yn amlygu'r gwahaniaethau rhwng y modd mae cymdeithasau'n gweld plant. Er bod y llofruddiaethau'r un mor erchyll ac wedi gadael trawma dychrynlyd yn eu sgîl, roedd yr ymatebion yn dra gwahanol.

Ceir, erbyn hyn, rywfaint o gytuno ymysg cymdeithasegwyr a seicolegwyr ynghylch natur gymdeithasol plentyndod a bod plentyndod ei hun yn cael ei greu drwy brosesau cymhleth o ymwneud cymdeithasol. Nid yw hyn, wrth gwrs, yn gwadu pwysigrwydd bioleg a datblygiad corfforol - mae plant ifainc, wedi'r cyfan, yn edrych yn wahanol i blant hŷn ac oedolion. Ond, fel y noda Nigel Thomas yn ei bennod, cymdeithas sydd yn diffinio'r gwahaniaethau yma.

Beth yw plentyndod?

Rydyn ni i gyd wedi clywed yr hen ymadrodd bod plant yn bwysig '*am mai nhw yw ein dyfodol*'. Ystrydeb braidd yw clywed pobl yn sôn am blant fel 'y dyfodol' neu 'ein dyfodol'. Y ddadl yw bod rhaid gofalu amdany'n nhw a buddsoddi ynddyn nhw gan mai nhw yw 'ein dyfodol'. Nid oes, yn yr agwedd hon, awgrym bod gan blant eu hunain eu presennol a bod i blentyndod ei arwyddocâd a'i werth ei hun. Cafwyd, yn ystod y degawdau diweddar, gryn her i'r syniadau traddodiadol am blentyndod a phlant fel cyfnod o anaeddfedrwydd ac ymbaratoi at fod yn oedolyn, sef y cyflwr y dylai pob plentyn anelu ato.

A dyna, mewn ffordd, yw sail y feirniadaeth o gyfraniad seicoleg ddatblygol i'n dealltwriaeth ni o ddatblygiad plant. Golwg gronolegol sydd gan seicoleg draddodiadol, hynny yw, mae'n edych ar ddatblygiad plant fel proses o symud o fabandod, drwy blentyndod, i lencyndod ac yna, i oedolaeth, sef y cyflwr terfynol - a derbyniol - i'r llwybr dynol. Mae'r feirniadaeth hon wedi'i gwreiddio mewn astudiaethau, ymchwil, a damcaniaethau o ddisgyblaethau cymharol newydd megis cymdeithaseg ac astudiaethau diwylliannol (James a Prout 1997, Buckingham 2000, Lee 2001).

Dros y blynyddoedd diwethaf, cytunwyd yn y maes bod plentyndod yn amrywio. Nid un cysyniad absoliwt mohono. Mae'n gwahaniaethu yn ôl lle, yn ôl amser, yn ôl diwylliant. Yn wir, mae rhai megis Moss a Dahlberg, yn awgrymu, erbyn heddiw, nad oes modd defnyddio'r geiriau 'plentyndod' a 'plant' mewn ffordd y byddai cytundeb cyffredinol ar eu hystyr. Mae i fywydau plant eu hamrywiol beuoedd neu feysydd: mae plant yn byw, er enghraifft, yn eu teuluoedd, yn eu hysgolion, ar eu stadau tai ac yn y blaen. Mae yma amrywiol wirioneddau ac erbyn heddiw clywir termau megis '*multiplicity of childhoods*' a '*multiple childhoods*'. Mae yma niferoedd lawer o 'blentyndod-au'. Ai cyflwr biolegol yw plentyndod ynteu gysyniad diwylliannol? Mae plant, wrth gwrs, yn ifanc, yn fach, ac yn tyfu. Ac felly, mewn perthynas ag oedolion, fe'u gwelir yn aml yn fodau di-rym, anwybodus, ac anaeddfed. Ond y farn, erbyn heddiw, yw bod plant yn llawer mwyr grymus, medrus, a gweithredol yn eu byd.

Beth yw datblygiad plant?

Gellir canfod y broses o dyfu ac o ddatblygu yn y blynyddoedd cynnar yn un sydd yn ymwneud â meysydd penodol, er enghraifft datblygiad corfforol neu ddatblygiad deallusol. Un ffordd o gofio'r meysydd hyn yw drwy'r acronym Saesneg PILES (*physical, intellectual, linguistic, emotional, and social*: corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol, a chymdeithasol) sydd yn amlinellu'r meysydd datblygu. Sail y ffordd hon o edrych ar ddatblygiad cynnar yw bod plant yn datblygu mewn meysydd a bod modd mesur y datblygiad hwnnw yn erbyn set o normau datblygol. Gelwir y normau datblygol hyn yn gerrig milltir (*milestones*) ac, ar y cyfan, y byd meddygol a gweithwyr iechyd sydd yn eu defnyddio er mwyn sgrinio plant. Ar y we, gwelir cannoedd a miloedd o wefannau sydd yn rhoi cyngor i rieni ar gerrig milltir a datblygiad plant - rhai yn sicr yn fwy defnyddiol nac eraill!

Cyngor i rieni ar ddatblygiad plant o wefan y BBC

O chwe mis ymlaen, bydd eich babi yn dysgu sut i symud fel bod cropian yn cychwyn. Efallai y bydd yn cychwyn drwy gropian am yn ôl, neu efallai fydd hi ddim yn cropian o gwbl ond yn hytrach yn ei llusgo'i hun ar ei phen ôl. Bydd hi'n medru eistedd heb gymorth, ac erbyn ei bod yn naw mis oed bydd hi'n medru tynnu ei hun i fyny gan ddefnyddio dodrefn neu eich dwylo chi i'w chynorthwyo i sefyll.

Byddwch yn clywed seiniau yn cael eu hailadrodd, fel "dadadadada" yn ogystal â dynwarediad o'ch seiniau chi. Dyma flociau adeiladu'r geiriau cyntaf a fydd yn cael eu clywed oddeutu 12 – 15 mis oed.

From six months onwards your baby will be learning how to get around as crawling begins. She may start by crawling backwards, or may not crawl at all but bottom shuffle instead. She'll be able to sit without support, and by the time she's nine months old she may be able to pull herself up to stand using furniture or your helping hands.

You'll hear repeated sounds like "dadadadada" as well as imitations of sounds you make. These are the building blocks for first words which will come along around 12 to 15 months of age.

http://www.bbc.co.uk/parenting/your_kids/babies_devstagesintro.shtml

Mae'r syniadau ynghylch plentyndod fel amrywiaethau o wirioneddau a phrofiadau, wedi tansilio ein syniadau traddodiadol ynghylch datblygiad plant. Er bod plant yn tyfu, yn llythrennol felly, o fod yn fach o gorff i fod yn fwy, a hynny'n gyfrifoldeb ar gymdeithas, mae datblygiad plant yn fwy cymhleth nag y mae'r term yn ei awgrymu. Bydd arferion a disgwyliadau teuluol a chymdeithasol ynglŷn â bwydo o'r fron, er enghraifft, yn gysylltiedig â nifer o faterion yn ymwneud â datblygiad plant megis deiet a datblygiad emosiynol. Nid oes amheuaeth ynghylch buddiannau llaeth y fron i fabanod yn y chwe mis cyntaf. Manteision llaeth y fam rhagor na llaeth fformiwla yw bod llaeth y fam yn cynnwys y cydbwysedd priodol o faetholion (*nutrients*), mae'n newid yn ôl angen ac oed y babi, mae'n trosglwyddo - yn y cyfnod cynnar - imiwnedd y fam i'r babi, ac mae buddiannau tymor hir iddo. Mae babanod sy'n cael eu bwydo ar y fron yn llai tebygol o fod yn ordew, yn tueddu i fod â lefel deallusrwydd uwch, a llai o debygrwydd o ddiodef o glefyd y galon (Dryden et. al. 2005: 30). Ond mae rhai mamau yn ei chael hi'n fwy anodd nag eraill i fwydo eu babanod eu hunain a hynny am nifer fawr o resymau: cymhlethdodau yn dilyn genedigaeth, iselder a salwch meddwl, gofynion gwaith ac yn y blaen. Yn wir, mae rhai mamau sydd ag HIV yn cael eu cynghori i beidio â bwydo eu

babanod eu hunain oherwydd y perygl o drosglwyddo'r firws i'w plant.

Ystyrier, hefyd, holl faes gordewdra mewn plentyndod. Mae'n destun sy'n denu cryn sylw'r dyddiau yma - ond yng ngwledydd Prydain ac America yn bennaf. Nid yw'r un broblem wedi codi, i'r un graddau, yng ngwledydd eraill Ewrop ac yn sicr ddigon ddim mewn gwledydd sy'n datblygu. Hyd yma. Mae â wnelo gordewdra â nifer o ffactorau sydd, mewn gwirionedd, yn ymwneud â materion megis economeg bwyd, amodau a disgwyliadau gwaith, diwylliant ac arferion teuluol, trafndiaeth ac yn y blaen.

Mae'r seicolegydd Americanaidd Urie Bronfenbrenner yn cynnig model o ddatblygiad dynol sydd yn cael ei alw'n **Damcaniaeth Systemau Ecolegol** (*Ecological Systems Theory*) Mae cyd-ddibyniaeth rhwng y systemau ecolegol cymhleth y mae Bronfenbrenner yn eu disgrifio sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant (gwelir mwy am y damcaniaethau hyn ym Mhennod 7). Mae agweddau a disgwyliadau cymdeithasol yn medru dylanwadu'n fawr ar y profiadau a gaiff plant. Bydd cyflog teulu, amodau gwaith rhieni, gofynion teithio, pwysau gwaith (*stress*) yn effeithio ar gyfleoedd plant, ar eu perthynas â'u rhieni, ar berthynas rhieni â'i gilydd ac felly ar y cartref. Bydd hyn yn wir hefyd am ffactorau megis heolydd, trafndiaeth, parciau a meysydd chwarae ac yn y blaen. Dyma'r math o ecosystemau sydd yn effeithio ar gyfleoedd plant i chwarae, i brofi rhyddid ac annibyniaeth. Bydd y byd ehangach hefyd yn effeithio ar ddatblygiad plentyn. Er enghraifft, bydd plentyn bach sydd yn byw yn Irac yn 2007 yn cael profiadau gwahanol iawn i blentyn sydd yn byw yn Aberystwyth. Ceir enghraifft o'r modd y bydd polisi cyhoeddus yn dylanwadu ar ddatblygiad plant yn *Y Cyfnod Sylfaen 3 - 7 oed* yng Nghymru. Dyma bolisi addysg sydd â'i fwriad yn gadarn yn y nod o fowldio plant - eu meddyliau a'u cymeriadau - i fod yn hyblyg, yn greadigol, yn ddysgwyr gydol oes, ac i fod yn gadarn yn eu canfyddiad ohonyn nhw eu hunain.

Mae i bob system, meddai Bronfenbrenner, ei normau a'i reolau sydd yn medru dylanwadu ar ddatblygiad yr unigolyn. Nid yw Bronfenbrenner, felly, yn gweld datblygiad yn gyfres o gamau, un yn dilyn y llall, mewn trefn benodol. Yn ei gyfrol ddylanwadol *The Ecology of Human Development* (1979) mae Bronfenbrenner yn tynnu disgyblaethau amrywiol at ei gilydd i gynnig un ddamcaniaeth gyflawn ac integredig. Cyn Bronfenbrenner, roedd seicolegwyr yn astudio plant a chymdeithasegwyr ac anthropolegwyr yn astudio'r teulu a'r gymdeithas ehangach. Nid oedd a wnelo gwaith

economegwyr a damcaniaethwyr gwleidyddol nemor ddim â gwaith seicolegwyr plant. Ond roedd Bronfenbrenner yn gweld y cysylltiad anhepgor rhwng y meysydd yma i gyd a lluniodd ddamcaniaeth ar ddatblygiad plant a phobl ar sail hynny.

O dan ddylanwad damcaniaethwyr megis Bronfenbrenner, defnyddir y term datblygiad dynol erbyn hyn yn hytrach na datblygiad plant. Wedi'r cyfan, nid ydym yn gorffen datblygu a newid pan fyddwn yn cyrraedd oedolaeth. Mae datblygiad yn broses sydd yn parhau drwy gydol oes. Ond mae i'r cyfnod cynharaf mewn bywyd dynol arwyddocâd allweddol. Yn ystod yr wythnosau cyntaf, bydd baban yn ffurfio cysylltiadau neu glymau (*bonds*) cryfion â'r rhai sy'n gofalu amdany'n nhw. Yn ystod y rhyngweithio hwn rhwng baban ag eraill (mam, rhieni, teulu, cyfeillion), y bydd plant yn datblygu syniad o'r hunan a'r hyn y mae Trevarthen (2003) yn ei alw'n syniadau ynghylch eu lle arbennig nhw yn y byd (*their particular place in the world*). Honna rhai (Laevers 1994, Pascal a Bertram 1997) y daw ymdeimlad o les (*well-being*) a sicrwydd emosiynol o'r rhyngweithio hwn. Bydd plentyn bach sydd yn sicr ei fyd, sydd wedi'i gysylltu'n ddiogel ac yn gadarn ag oedolion, yn ei chael hi'n haws wynebu'r byd:

Yn aml, bydd plant sydd ag ymdeimlad o les emosiynol isel, yn ymateb i brofiadau newydd yn betrusgar, yn ofnus, ac yn anhyblyg, heb yr ymagwedd agored, anturus sydd ei hangen er mwyn dysgu am y byd.

Children who have poor emotional well-being often respond with timidity, fear and rigidity to new experiences, lacking the open, exploratory state that learning about the world requires.

(Bertram a Pascal, 2006: 61)

Un rhagdybiaeth ynghylch plant ifainc sydd yn cael ei herio'r dyddiau hyn yw'r gred fod plant ifainc yn wan ac yn methu gweithredu yn eu bywydau eu hunain. Mae syniadau Malaguzzi, athronydd ac addysgwr blaenllaw dull Reggio Emilia, wedi dylanwadu yn hyn o beth. Clywir addysgwyr Reggio Emilia yn cyfeirio'n gyson ac yn heriol at 'y plentyn cryf' a'r 'plentyn medrus' (Rinaldi, 2005). Mae Alderson hithau'n cynnig esboniad diddorol ynghylch y modd y mae cymdeithas (cymdeithasau gwledydd Prydain yn benodol) yn gweld plant:

Anwybodus	Gwybodus
Amhrofiadol	Profiadol
Ansefydlog	Sefydlog
Gwirion	Call
Dibynnol	Gwarcheidiol
Annibynadwy ac anwadal	Dibynadwy
Gwan	Cryf
Anaeddffed	Aeddffed
Afresymol	Rhesymol
Anfedrus a di-glem	Medrus a galluog

Ffynhonnell: Alderson, 2005: 129

Mae Alderson yn dadlau, yn sgîl discwrs ffeministaidd o gymdeithas batriarchaidd a oedd yn cadw menywod yng Ngholofn 1, bod plant, erbyn heddiw, yn cael eu canfod fel roedd merched flynyddoedd yn ôl. Dywed Alderson fod cymdeithas yn mynnu cadw plant yng Ngholofn 1 a phan fydd plant yn ceisio dangos nodweddion Colofn 2, bydd cymdeithas, mewn ffordd, yn eu cosbi. Pan fydd plentyn, er enghraifft, yn ceisio dangos aeddffedrwydd neu wybodaeth, bydd oedolion yn ei labelu (*cheeky*, haerllug, dangos ei hun, powld!). Dywed Alderson, ymhellach, fod plant sydd yn ceisio symud o Golofn 1 i Golofn 2 yn aml yn cael eu cosbi ac mae oedolion, yn amlach na pheidio, am ddiogelu eu grym eu hunain drwy warchod eu meddiant o Golofn 2. Mae sgiliau plant ifainc a'u gallu i weithredu'n gadarnhaol yn eu bywydau'n amlwg i'r sawl sydd yn eu gwyllo. Bydd babi ifanc iawn, er enghraifft, yn cydweithredu ag oedolyn wrth gael ei wisgo, bydd yn ymestyn ei freichiau ac yn ceisio dal ei ben wrth i oedolyn wisgo fest amdano. Gwelir babanod ifainc yn cyfathrebu'n effeithiol iawn drwy amrywiol ffyrdd megis cyswllt llygaid, estyn llaw, canolbwyntio ar wrthrych (tegan neu ddioid) er mwyn denu sylw oedolion. Nid yw'r plentyn eto'n medru rheoli ei gorff i gael ei dedi, ond mae'n gallu gweithredu'n effeithiol ar ei amgylchfyd er mwyn cydio yn y tedi yn y pen draw.

Chwarae plant

Mae chwarae yn un o'r geiriau hynny rydym yn cymryd ei ystyr yn ganiataol ond sydd yn anodd iawn ei ddiffinio'n fanwl gywir.

Play is...one of those words whose meaning most of us take for granted but whose precise definition is remarkably elusive.

(Hill a Tisdall, 1997: 100)

Nid yn unig y mae chwarae plant ifainc yn anodd iawn ei ddiffinio, mae hefyd weithiau yn anodd ei weld yn digwydd.

Ond mae lled cytundeb ynghylch ei bwysigrwydd fel proses allweddol yn natblygiad plentyn bach a bod iddo arwyddocâd penodol. Mae peth anghytuno, fodd bynnag, ynglŷn â chyffredinolrwydd y ffenomen o chwarae. Nid yw pob cymdeithas yn annog na chwaith yn caniatáu chwarae (Bruce a Meggit 2001). Ond, yn sicr ddigon, mae chwarae wedi cael ei gydnabod, ymysg damcaniaethwyr datblygiad plant Ewropeaidd, fel gweithgaredd diddorol ac arwyddocaol. Yn wir, mae dogfennaeth Y Cyfnod Sylfaen 3 - 7 yng Nghymru yn awgrymu bod chwarae'n allweddol:

Mae'r rhaglenni mwyaf effeithiol yn y blynyddoedd cynnar yn pwysleisio gwaith archwilio, datrys problemau, cymryd rhan weithredol, datblygu iaith a mathau gwahanol o chwarae.

(LICC, 2003:12).

Gwelir, yn y llynyddiaeth ymchwil ac mewn damcaniaethau, nifer o gategoriâu o chwarae: chwarae ludic (o'r un tarddiad â'r gair 'ludicrous', sef o'r Roeg am hwy), chwarae epistemic (yn gysylltiedig â dysgu), chwarae cathartig (bywiog ac ynglŷn â chael gwared ag egni sbâr), chwarae therapiwtig (er mwyn rheoli ofnau), chwarae dychmygus, chwarae creadigol, chwarae corfforol...mae'r rhestr yn un faith. Mae oedolion hefyd yn tueddu i osod chwarae mewn dau brif gategori: chwarae rhydd a chwarae strwythuredig. Chwarae rhydd yw'r chwarae y mae plant eu hunain yn ei reoli tra bydd chwarae strwythuredig yn cael ei arwain a'i reoli i raddau helaeth gan oedolion. Ond oedolion sydd yn didoli chwarae i gategoriâu, nid plant. Nid yw plant yn gwahaniaethu rhwng mathau o chwarae.

Byddai Freud a'r seicdreiddwyr yn ystyried chwarae yn ddrych ar fyd isymwybodol plentyn ac sy'n adlewyrchu ofnau a phryderon dyfnion. Drwy eu chwarae, bydd plant yn dod i ddeall eu pryderon ac i ddelio â nhw, a bydd hyn yn eu cynorthwyo i gael gwared ar seicosis. Os nad yw'r chwarae'n caniatáu hyn, bydd perygl i blentyn, yn ôl y ddamcaniaeth hon, dyfu i fod yn niwrotig - a gwaeth. Roedd Piaget a Vygotsky ac eraill o'r traddodiad adeileddol, yn canfod chwarae fel allwedd i ddatblygiad deallusol a

chymdeithasol plant. Yn eu chwarae, mae plant yn dod i ddeall rheolau cymdeithasol, yn datrys problemau, yn cyfathrebu ag eraill ac â'u hunain (Moyles, 2005). Byddai Piaget yn dadlau bod chwarae plant yn adlewyrchu lefel eu datblygiad deallusol. Nid yw'n bosibl, yn ôl Piaget, i blant chwarae'r tu hwnt i'w lefel. Ni fydd plentyn yn y cyfnod synhwyrdd gweithredol (*sensory-motor*) (o dan ddwy flwydd oed), er enghraifft, yn medru chwarae'n ddychmygus neu'n symbolaidd, yn ôl Piaget..

Un math o chwarae sydd yn arbennig o ddiddorol i edrych arno yw'r chwarae hewristig sydd yn cael ei ddisgrifio a'i annog gan Elinor Goldschmeid a Sonia Jackson (Jackson a Goldschmeid, 2004) Chwarae heb ffiniau, heb ddiwedd, gyda gwrthrychau naturiol yw chwarae hewristig.

Mae Goldschmeid yn daer ynghylch y math o ddefnyddiau dylid eu cynnwys mewn basged trysor: dim ond defnyddiau naturiol ac nid unrhyw beth plastig. Cyfyng iawn, meddai, yw gwerth deallusol a synhwyrdd plastig tra mae defnyddiau naturiol yn llawn cyfleoedd dysgu arbennig.

Un nodwedd ddiddorol ar y math yma o chwarae yw swyddogaeth yr oedolion. Rôl ymylol ac ymataliol sydd i'r oedolyn. Bydd oedolyn yn gosod yr amodau ar gyfer y chwarae - yn paratoi'r defnyddiau a'r gofod - ond yna'n encilio i'r ochr. Sicrhau diogelwch y plentyn, annog drwy wên a nodio, ond dyna i gyd. Nid yw'r oedolyn yn sgwrsio â'r plentyn nac yn ymyrryd yn y chwarae. Darganfod drosto'i hun mae'r plentyn. Wrth gwrs, mae rôl allweddol i'r oedolyn mewn chwarae o bob math. Ond erys cryn ddadlau ynghylch sut a phryd dylai oedolion ymwthio neu ymyrryd - mae'r geiriau eu hunain yn rhai ymosodol - yn chwarae'r plant. Cred rhai fod chwarae yn broses sydd yn perthyn i blant yn unig ac y dylai fod yn ddigymell ac yn rhydd rhag ymyrraeth oedolion (Guha, 1988).

Ers peth amser bellach, gwyddom fod gwahaniaethau rhwng chwarae bechgyn a merched. Mae astudiaethau rhywedd a discwrs cyfle cyfartal wedi herio pobl sydd yn gweithio gyda phlant ifainc i edrych ar y gwahaniaethau hyn sydd yn cael eu crynhoi yma:

Mae cynnwys chwarae bechgyn a merched, ar y cyfan, yn wahanol, mae gan fechgyn themâu mwy ymosodol a themâu domestig gan

Deleted: ¶
Illustration baby with treasure basket¶
¶

ferched. At hyn, mae chwarae bechgyn yn fwy corfforol weithredol...Fodd bynnag, mae bechgyn a merched yn datblygu eu chwarae mewn dilyniant o gamau sydd yn debyg i'r hyn a ddisgrifiwyd gan Piaget. Ac mae bechgyn a merched yn dilyn yr un gweddnwidiad cyfocrog i chwarae'n gydweithredol ag eraill yn y diwedd.

Boys and girls generally play at different play content, boys more with aggressive themes and girls more with domestic themes. In addition boys' play is more physically active... However girls and boys develop their play in the same stage-like progression described by Piaget. And both genders follow the same transformation in parallel to eventually playing co-operatively with others.

(Scarlet et al, 2005: 15)

Mae'n bosibl crynhoi'r hyn a ddywed ymchwil a damcaniaeth ynghylch chwarae, er mor gymhleth ydynt, yn rhai negeseuon cadarn. Mae chwarae'n ganolog i brosesau dysgu plant, ac yn sicr nid dysgu deallusol yn unig. Nid gwobr yw chwarae i'r plentyn bach felly nid yw ymadroddion megis 'Gorffen dy waith a gei di fynd allan i chwarae' yn golygu fawr i'r plentyn. Nid oes, i'r plentyn bach, wahaniaeth rhwng gwaith a chwarae. Yn ei chwarae bydd y plentyn bach yn barod iawn i gymryd risg ac nid yw'n gweld 'methiant' yn yr un ffordd ag oedolion. Bydd chwarae'n allweddol yn natblygiad hunan-barch, hyder, hunanddelwedd a lles y plentyn. Dyma, wrth gwrs, egwyddorion sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen 3 - 7 oed yng Nghymru

Dinasyddiaeth Plant

Mae'r syniad o blant fel dinasyddion yn un lled ddiweddar. Yn wir, cymharol ddiweddar (canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn ôl rhai) yw'r cysyniad o blentyndod o gwbl.

Bu i gymdeithas ofalu am blant, o dan ddeddfau'r tlodion - hynny yw plant amddifaid, neu blant oedd wedi cael eu gadael yn y wyrchw. Roedd y ddeddfwriaeth yma'n gosod cyfrifoldeb ar rieni i ofalu am eu plant eu hunain. Roedd rheidwydd felly yn ôl y gyfraith ar i rieni fod yn gyfrifol am eu plant, nid cyfrifoldeb moesol yn unig oedd gofalu am blant. Cafodd awdurdodau'r plwy hwythau'r hawl i orfodi gwaith ar blant yr oedd eu rhieni'n methu gofalu amdany'n nhw. Roedd y syniad o 'ofal plant' yn un dieithr a gwaith yr asiantaethau gofal oedd sicrhau bod plant yn cael eu defnyddio fel llafur rhad er lles y gymdeithas gyfan.

Mae'r cymdeithasegydd Lorraine Fox Harding (1997) yn gosod hanes perthynas y wladwriaeth â phlant mewn trefn hanesyddol, fel hyn:

1. Cyfnod laissez faire a phatriarchaeth

Ar yr olwg yma, cyn y 20fed ganrif, prin yw'r berthynas rhwng y plentyn â'r wladwriaeth. Y teulu, fel uned breifat, sydd yn gyfrifol am blant a'r tad yw'r penteulu. Y tad sydd yn gweithredu ar ran y teulu ac ef sydd â chyfrifoldeb dros y teulu - a grym dros blant a gwragedd hefyd. Os yw'r teulu yn methu yn ei swyddogaeth, bydd y wladwriaeth yn dod i'r adwy ac yn achub cam y plant.

2. Y wladwriaeth baternalistaidd

Gwelir y newid yn cychwyn tua dechrau'r 20fed ganrif. Mae gan y wladwriaeth gyfrifoldeb i ymateb i ofynion a lles plant ac mae'n dechrau darparu gwasanaethau priodol. Swyddogaeth bennaf y wladwriaeth yw amddiffyn plant rhag rhieni creulon neu esgeulus.

3. Hawliau rhieni a gwarchod teulu geni

Ar ôl yr ail ryfel byd, gwelir twf yn y wladwriaeth les ac felly gynnydd hefyd yn y berthynas rhwng plant a'r systemau cyfreithiol. Prif swyddogaeth y wladwriaeth les, yn y cyfnod hwn, yw cynorthwyo teuluoedd i wneud eu gwaith yn well drwy eu cynorthwyo i ddatrys eu hanawsterau. Erbyn y cyfnod hwn, gwelir bod tlodi, difreintiedigaeth, dosbarth a dieithrio cymdeithasol yn ffactorau allweddol.

4. Hawliau plant

Yn ystod blynyddoedd olaf yr 20fed ganrif, daw'r cysyniad o hawliau plant yn fwyfwy amlwg. Nid aelod o deulu'n unig yw plentyn, ond mae iddo ei hunaniaeth fel unigolyn ac yn sgîl hynny daw hawliau sydd yn annibynnol ar hawliau ei rieni. Wrth wneud penderfyniadau ynghylch plant, dylid holi eu barn a chydabod eu dymuniadau (Lansdown, 2001).

Yn sgîl y cyfnod diweddar gwelwyd Deddf Plant 1989 yn cael ei gweithredu, gyda'i phwyslais mawr ar egwyddorion megis: lles y plentyn (dylai pob penderfyniad yn ymwneud â phlant fod â lles y plentyn hwnnw'n sail ganolog i'r penderfyniad), pwysigrwydd ymateb i lais a safbwynt y plentyn a'u cydnabod, bod gan rieni

gyfrifoldebau rhagor na hawliau mewn perthynas â'u plant, bod rhieni a theuluoedd yn bartneriaid allweddol ag asiantaethau allanol, a dylai pawb sydd yn ymwneud â phlant a theuluoedd weithredu mewn ffordd wrth-wahaniaethol.

Erbyn yr 21ain ganrif, gwelir cyfnod newydd eto, sef cyfnod dinasyddiaeth plant. Ac mae i'r cysyniad heriol hwn ei sail mewn hanes ac mewn athroniaeth wleidyddol.

UNICEF a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae UNICEF (adain plant y Cenhedloedd Unedig - CU) yn nodi ei brif genhadaeth fel newid y byd gyda phlant (*Changing the World with Children* – nodwch yn y Saesneg y defnydd o'r gair 'with' ac nid 'for' a'r ymroddiad cryf i gyfartaledd rhwng oedolion a phlant).

Gwraig ryfeddol o'r enw Eglantyne Jebb oedd sylfaenydd UNICEF, ac fel cynifer o wragedd sydd wedi ymroi i wella byd plant, prin iawn yw'r cof amdani ac ni ddethlir chwaith ei chyfraniad gloyw i faes astudiaeth plentynod a dinasyddiaeth plant. Cafodd ei geni i deulu gwleidyddol a breintiedig yn swydd Amwythig ym 1878. Wedi mynychu Prifysgol Rhydychen, hyfforddodd Eglantyne i fod yn athrawes gynradd a dyna fu ei gwaith am rai blynyddoedd ond ymhen amser aeth i weithio gyda Chymdeithas yr Elusennau. Bu'n weithgar iawn yn gwrthwynebu'r Rhyfel Byd Cyntaf, yn enwedig felly'r hyn a oedd yn digwydd i ffoaduriaid, plant yn bennaf, ym Macedonia. Gan wrthdystio a phrotestio - cafodd ei harestio a'i charcharu - llwyddodd Eglantyne ac eraill, gan gynnwys ei chwaer – i dynnu sylw'r byd cyfforddus at ddioddefaint plant mewn rhyfel. Ym 1919, gydag arian roedd hi wedi llwyddo i'w godi drwy lobïo dynion busnes Dinas Llundain, sefydlodd Gronfa Achub y Plant (*Save the Children Fund*). Bu'n gwbl ddiffino yn ei gwaith gyda'r Gronfa ac ym 1923 bu i'r Gronfa, drwy Eglantyne, gyhoeddi'r drafft Datganiad ar Hawliau'r Plentyn a fabwysiadwyd gan Gynghair y Cenhedloedd ymhen y flwyddyn gyda'r egwyddor hon yn sail iddo:

Dylai'r ddynoliaeth sicrhau bod plant yn cael y gorau y gellid ei ddarparu. Dylai bywydau a datblygiad normal plant fod yn brif gonsyrn cymdeithas a chael blaenoriaeth ar ei hadnoddau. Dylai plant fedru dibynnu ar yr ymrwymiad hwnnw mewn cyfnodau da a chyfnodau gwael, mewn cyfnodau arferol ac mewn argyfyngau, mewn cyfnod o heddwch ac mewn rhyfel, mewn cyfnod o lewyrch ac mewn dirwasgiad.

That the lives and the normal development of children should have first call on society's concerns and capacities and that children should be able to depend upon that commitment in good times and in bad, in normal times and in times of emergency, in times of peace and in times of war, in times of prosperity and in times of recession

Y broblem gyda'r datganiad, fodd bynnag, oedd nad yw datganiadau'n fawr iawn mwy nag egwyddorion cyffredinol. Nid oes rhaid eu mabwysiadu neu eu gweithredu gan y gwledydd sy'n aelodau o'r Cenhedloedd Unedig. Mae gan Gonfensiwn, ar y llaw arall, statws mewn cyfraith ac mae rheidrwydd a dyletswydd ar y gwladwriaethau hynny sydd yn eu cadarnhau a'u mabwysiadu (*ratify*) i'w gweithredu. Felly, yn dilyn Blwyddyn Ryngwladol y Plentyn ym 1979, aeth y CU ati i geisio troi'r Datganiad ar Hawliau'r Plentyn yn Gonfensiwn. Cymerodd ddeng mlynedd o drafod a chyfaddawdu rhwng y gwledydd cyn i Gynulliad Cyffredinol y CU fabwysiadu'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ym 1989. Er iddi gymryd blynyddoedd i wledydd y Cenhedloedd Unedig gytuno ar y Confensiwn, hyd heddiw mae dwy wlad yn parhau heb ei chadarnhau sef Somalia ac Unol Daleithiau'r America. Mae normau diwylliannol a chymdeithasol, arferion a chredoau crefyddol a myrdd o gwestiynau moesol a chyfreithiol sy'n berthnasol i wledydd unigol wedi cynnig sawl her. Er enghraifft, rôl plant yn y gweithlu mewn gwledydd sydd yn datblygu, oed priodi merched, ac oed cydsynio dynion hoyw.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

54 erthygl yn syrthio i 4 categori bras yn cynnwys hawliau sylfaenol:

- Yr hawl i fywyd (er enghraifft: bwyd, cysgod, gofal meddygol)
- Yr hawl i ddatblygu (er enghraifft: addysg, chwaraeon a hamdden, rhyddid meddwl, crefydd, diwylliant, iaith)
- Yr hawl i gael ei amddiffyn
- Yr hawl i gyfranogi

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Diffiniad o'r plentyn

"...pob bod dynol o dan 18 oni ddaw'r plentyn i lawn oed ynghynt, o dan ddeddfwriaeth

sy'n berthnasol i'r plentyn ...”

(“...every human being below the age of 18 years unless, under the law applicable to the child, majority is attained earlier...”)

Cwestiynau astrus

- Pam nad yw'r Confensiwn yn cyfeirio at yr adeg pryd mae plentynod yn cychwyn?
- Beth yw cyfrifoldeb y wladwriaeth tuag at ferched beichiog?
- Pryd caiff plant ymuno â'r lluoedd arfog?
- Pryd caiff plant briodi?
- Pryd bydd plentyn yn gyfrifol am ei droseddau?
- Pryd caiff blant gyngor meddygol heb ganiatâd rhieni?

Cyhoeddodd UNICEF yn ddiweddar adroddiad damniol ynghylch lles plant mewn gwledydd cyfoethog (UNICEF 2007). Yn yr astudiaeth gymharol hon o 21 o wledydd cyfoethocaf y byd, daeth y Deyrnas Unedig (er Lloegr yn unig oedd ffynhonnell y data a gasglwyd) ar waelod y rhestr o bob un o'r dangosyddion yn cynnwys tlodi, perthynasau, ac iechyd. Mae cryn bryder, erbyn hyn, gyda lefelau uchel iawn o broblemau iechyd meddwl ymysg plant a phobl ifainc yng ngwledydd Prydain. Clywir, er enghraifft, am blant ifainc iawn yn dioddef o iselder.

Cosbi plant

Un testun sydd wedi achosi her - cymdeithasol, gwleidyddol, cyfreithiol, ac o ran agweddau - yw hawl rhieni i gosbi eu plant yn gorfforol. Bu rhieni a gofalwyr yn cam-drin eu plant drwy gydol hanes, ond gelwid ymddygiad o'r fath yn greulondeb yn hytrach na chamdriniaeth. Yn y 1960au daeth newid yn y farn gyhoeddus drwy feddygon yn nodi achosion o fabanod wedi eu curo (*'battered babies'*). Ym 1973 bu farw merch ifanc, saith oed o'r enw Maria Colwell, o ganlyniad i anafiadau a ddioddefodd wrth law ei llystad. Roedd Maria o dan ofal y gwasanaethau cymdeithasol ar y pryd am ei bod yn byw mewn cartref enbyd o esgeulus. Yn dilyn marwolaeth Maria, cafwyd ymchwiliad cyhoeddus yn sgîl yr hyn a oedd yn cael ei alw'n 'moral panic' (Hill a Tisdall. 1997:198). Dros y degawdau wedi marwolaeth Maria, mae degau o ymchwiliadau tebyg i blant sydd wedi eu lladd yn eu cartrefi: Kimberly Carlile, Jasmine Beckford, Tyra Hendry, Rikki Neave, Leanne White, Victoria Climbié a llawer i un arall. Mae'r rhestr yn ddirdynol. Mae hyn wedi tanseilio'r ddelwedd o oedolion, rhieni yn arbennig, fel gwarcheidwaid eu plant. Oedolion, a rhieni yn arbennig, yw'r perygl mwyaf i blant.

Mae'r NSPCC yn cynnig golwg frawychus ar y peryglon i blant:

- Bydd un plentyn yn cael ei ladd gan riant neu ofalwr bob wythnos yng Nghymru a Lloegr.
- Mae pymtheg y cant o blant yn dioddef camdriniaeth rywiol naill ai gan riant neu ofalwr, aelod arall o'r teulu neu gyfaill teuluol.
- Nid yw tri chwarter y plant sydd wedi eu cam-drin yn rhoi gwybod i neb am brofiad o gamdriniaeth ar y pryd. Mae oddeutu traean ohonyn nhw'n cadw'r gamdriniaeth yn gyfrinachol hyd yn oed wedi iddyn nhw gyrraedd oedolaeth.
- Mae oddeutu 32,700 o blant ar y rhestr amddiffyn plant yng ngwledydd Prydain.
- Y bobl sydd fwyaf tebygol o farw o ganlyniad i drais yw babanod o dan flwydd oed. Mae'r grŵp yma bedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd na neb arall yng Nghymru a Lloegr.

Yn sgîl y pryder a gododd o ganlyniad i'r ymchwiliadau i farwolaeth plant a'r wybodaeth gynyddol ynghylch pob math o drais, daeth y lleisiau o blaid gwahardd unrhyw fath o gosbi corfforol yn fwyfwy huawdl. Mae gan rieni, o dan ddeddf sy'n dyddio o 1861, yr hawl i fwrw eu plant a hynny o dan amddiffyniad 'ceryddu rhesymol' (*'reasonable chastisement'*). Roedd yr un ddeddfwriaeth yn rhoi'r hawl i ddyn fwrw ei wraig, ei weision, yn ogystal a'i blant. Gwardwyd yr hawl i fwrw 'ei wraig a'i weision' erbyn 1937. Nid yw'r gyfraith yn diffinio'r term 'ceryddu rhesymol' ond mae'n gyffredin i gredu bod gadael marc ar gorff y plentyn neu ddefnyddio offeryn megis ffon neu wregys, yn 'geryddu afresymol'. Rhieni'n unig sydd yn cael defnyddio'r amddiffyniad yma. Mae hi'n anghyfreithiol i athrawon, gweithwyr mewn meithrinfeydd, neu ofalwyr plant yn gyffredin i fwrw plant. Mae'n anghyfreithiol i fwrw oedolyn ond mae'r gyfraith yn parhau i ganiatáu bwrw plant.

Os yw dyn blin yn dod adre ac yn taro ei bartner gyda chefn ei law, mae cymdeithas yn galw hynny'n ymosod. Os yw'n troi cledr ei law i'w plentyn, mae rhai yn galw hynny'n ddisgyblaeth.

If an angry man comes into his home and takes the back of his hand to his partner, society calls it assault. If he takes the palm of that hand to their child, it may be called discipline.

Penelope Leach

Cymru a Lloegr yw rhai o'r ychydig wledydd, yn sicr yn yr Undeb Ewropeaidd, sydd yn

parhau i ganiatáu smacio plant. Dywed Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn 2002:

Mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw cynigion llywodraeth (y DU) i gyfyngu yn hytrach na gwared amddiffyniad 'ceryddu rhesymol' yn cydymffurfio ag egwyddorion a darpariaethau'r Confensiwn...At hyn, maent yn awgrymu bod rhai mathau o gosbi corfforol yn dderbyniol ac felly yn tansellio'r bwriadau addysgol i hyrwyddo disgyblaeth gadarnhaol a di-drais.

The Committee is of the opinion that (the UK) governmental proposals to limit rather than remove the 'reasonable chastisement' defence do not comply with the principles and provisions of the Convention... Moreover, they suggest that some forms of corporal punishment are acceptable and therefore undermine educational measures to promote positive and non-violent discipline.



Fe lanswyd 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! Cymru' ym mis Medi 2000, i gydgyssylltu ac i hyrwyddo'r ymgyrch yng Nghymru. Y mae gan y Grŵp Strategaeth gynrychiolwyr o fudiadau plant yng Nghymru: Achub y Plant, Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant, NCH, Barnardo's, Cymdeithas Genedlaethol y Gwarchodwyr Plant, y Sefydliad Cenedlaethol dros y Teulu a Magu Plant, a Choleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant. Amcanion y Gynghrair yw:

- * newid y gyfraith fel bod **gan blant** a phobl ifanc yr un amddiffyniad rhag cael eu taro ag sydd gan oedolion
- * ymgyrch addysg gyhoeddus ynglŷn â pham nad yw taro plant yn iawn
- * i rieni gael llawer o wybodaeth a chynghor a chefnogaeth ymarferol am ddulliau amgenach na 'tharo' a defnyddio ymagweddiad cadarnhaol tuag at fagu plant

O ganlyniad i'r ymgyrchu gan 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable!', y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo yn gadarn i gynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ac i gefnogi amcanion yr ymgyrch.

Mewn dadl mewn cyfarfod llawn ar y 14eg o Ionawr, 2004 ynglŷn â'r Papur Gwyrdd, "Mae Pob Plentyn yn Bwysig", fe bleidleisiodd aelodau Cynulliad Cymru o blaid gwahardd taro plant o 41 o bleidleisiau i 9. Yr oedd y cynnig a dderbyniwyd yn:

"edifar bod Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn parhau i gynnal yr amddiffyniad o gosbi rhesymol ac nad ydyw wedi cymryd unrhyw gam sylweddol tuag at wahardd cosbi plant yn gorfforol yn y teulu."

Yn 2004, ceisiodd cefnogwyr Seneddol 'Sdim Curo Plant! gyflwyno cymal newydd i roi amddiffyniad cyfartal i blant yn y Mesur Plant. Fe fethodd yr ymdrechion ac fe gefnogodd Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol gymal newydd a ddaeth yn Adran 58 o Ddeddf Plant 2004. Y mae hwn yn caniatáu 'ymosodiad cyffredin' ar blant i'w gyfiawnhau fel 'cosb resymol'.

<http://www.plantynghymru.org.uk/2401.html>

I gloi

Nid yr un yw plentyndod i bob plentyn ac nid oes prosesau clir yn perthyn i'r cysyniad o ddatblygiad plentyn. Mae gan gymdeithas agweddau paradocsaid tuag at blant a phlentyndod a chaiff y gwrthdaro yma ei fynegi yn amlwg yn y cyfryngau. Gwelir cyfnod o newid a chyffro yn y modd mae cymdeithasau, dros y byd, yn gweld plant ac yn eu triniaeth ohonyn nhw. Un o'r dylanwadau mwyaf ar y canfyddiad hwn yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r her aruthrol a ddaw yn ei sgîl. Yn y llenyddiaeth ddamcaniaethol, ceir cyfeirio cyson at bwysigrwydd arwyddocaol chwarae ym mywydau plant. Dyma, meddai llawer, yw prif gyfrwng dysgu'r plentyn bach. Ac mae oedolion yn ei chael hi, yn amlach na pheidio, yn anodd iawn i ddeall chwarae ac i ganiatáu chwarae.

Gwefannau defnyddiol:

<http://www.communityplaythings.co.uk/> - am wybodaeth ynghylch chwarae a chwarae hiwristaidd yn arbennig

<http://www.unicef.org.uk/>

www.childrenareunbeatable.org.uk/

www.victoria-climbie-inquiry.org.uk

Cwestiynau i'w trafod ymhellach

- Pam tybed nad oes mwy o sylw yn cael ei roi i gyfraniad Eglantyne Jebb? Pwy sy'n gyfrifol am ysgrifennu hanes ac am gytuno ar y 'stori' a'r 'arwyr' sydd yn cael eu cofio?
- Sut mae polisïau cyhoeddus, megis Y Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg yn

dylanwadu ar ddatblygiad plant? Beth yw rôl y wladwriaeth a pholisi cyhoeddus ym maes datblygiad plant?

- Beth yw'r ddadl o blaid dinasyddiaeth plant, yn benodol mewn perthynas â statws plant mewn cyfraith?